**GRŴP LLYWIO RHEOLI RISG**

**CYLCH GWAITH**

Y Pwrpas

Adrodd a rhoi sicrwydd ynghylch risg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol

Nodi a chanolbwyntio ar risgiau Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) ar lefel strategol a hyrwyddo mentrau i leihau amlygiad yr Awdurdod i'r risgiau hyn.

Monitro'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a rhoi gwybod am hyn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio

Goruchwylio'r tri gweithgor a restrir isod, a sefydlwyd i gefnogi'r Grŵp Llywio ar lefel weithredol. Mae'r grwpiau hyn yn nodi risgiau ac yn sefydlu ac yn hyrwyddo mentrau i leihau amlygiad yr Awdurdod i'r risgiau hyn

Gweithgor Risgiau Trafnidiaeth

Gweithgor Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd

Gweithgor Cynllunio Wrth Gefn

Dangos ymrwymiad i reoli risg i bartïon allanol

Diweddaru a chyflwyno Strategaeth Rheoli Risg a Strategaeth Cynllunio Wrth Gefn yr Awdurdod i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio

Hyrwyddo diwylliant sy'n ymwybodol o risg o fewn yr Awdurdod

Rheoli'r Gyllideb Rheoli Risg (a ddefnyddir i leihau amlygiad i Risgiau Strategol neu Weithredol yn y dyfodol). Mae'r gyllideb o £250,000 yn cael ei rheoli yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg a Chynlluniau Wrth Gefn ac fe'i defnyddir i fuddsoddi mewn meysydd i leihau'r perygl o hawliadau neu achosion cyfreithiol drud.

**Amlder y Cyfarfodydd**

Mae cyfarfodydd ar gyfer y Grŵp Llywio a'r Gweithgorau yn cael eu trefnu bob 3 mis

**Atebolrwydd**

Mae Cofnodion y Gweithgorau yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Llywio Rheoli Risg.

Mae Cofnodion y Grŵp Llywio yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Aelodaeth**

Pennaeth Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol - Cadeirydd

Hyrwyddwr Risg y Cabinet

Cadeirydd y Gweithgor Risgiau Trafnidiaeth

Cadeirydd y Gweithgor Risgiau Eiddo ac Atebolrwydd

Cadeirydd y Gweithgor Cynllunio Wrth Gefn

Hyrwyddwyr Risg Adrannol (Y Prif Weithredwr / Cymunedau / Addysg a Gwasanaethau Plant / Yr Amgylchedd)

Uwch-swyddog Risg

Cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch

Cynrychiolydd Eiddo

Partner Risg Allanol (Rôl ymgynghorol)

**Adolygu**

Bydd adolygiad o'r Cylch Gorchwyl yn cael ei gynnal gan y Grŵp bob blwyddyn.